

# Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol

## HWLG (3)-21-08 Papur 4

### Ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar drefniadau iawndal ar gyfer haint y nodau eisbilennol

#### Diben

1. Rhoi gwybodaeth gefndir i'r pwyllgor er mwyn iddo allu ystyried ac, os bydd yn penderfynu gwneud hynny, ymateb i ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ymateb Llywodraeth y DU i benderfyniad Tŷ'r Arglwyddi yn Johnston v NEI International Combustion Ltd, nad yw bodolaeth haint y nodau eisbilennol yn golygu niwed sy'n agored i gyfraith na niwed y gellir ei ddigolledu.

#### Cefndir

2. Ardaloedd bach cyfyngedig o ffibrosis a leolir ym mhilen yr ysgyfaint yw haint y nodau eisbilennol a chaiff ei hachosi gan asbestos. Ar sail penderfyniadau a wnaethpwyd gan yr Uchel Lys yn y 1980au, roedd yn bosibl dyfarnu iawndal mewn achos o gysylltiad esgeulus ag asbestos a arweiniodd at haint y nodau eisbilennol.

3. Fodd bynnag, ar 17 Hydref 2007 dyfarnodd Arglwyddi'r Gyfraith gan fod haint y nodau eisbilennol yn gyflwr heb symptomau, nid yw'n afiechyd y gellir ei ddigolledu.

Eglura Lord Hoffman yn ei ddyfarniad:

"Pleural plaques [...] are areas of fibrous thickening of the pleural membrane which surrounds the lungs. Save in very exceptional cases, they cause no symptoms. Nor do they cause other asbestos-related diseases. But they signal the presence in the lungs and pleura of asbestos fibres which may independently cause life-threatening or fatal diseases such as asbestosis or mesothelioma. In consequence, a diagnosis of pleural plaques may cause the patient to contemplate his future with anxiety or even suffer clinical depression.

Proof of damage is an essential element in a claim in negligence and in my opinion the symptomless plaques are not compensatable damage."

4. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnal ymgynghoriad i weld sut y dylai Llywodraeth y DU ymateb i'r dyfarniad neu a ddylai wneud hyn o gwbl. Maent yn gofyn yn arbennig a ddylid gwrthdroi penderfyniad Tŷ'r Arglwyddi neu a ddylid cyflwyno trefniadau iawndal newydd megis taliadau ariannol heb fai i'r rhai sydd â haint y nodau eisbilennol.

5. Ceir gwybodaeth gefndir pellach ym mhapur ymgynghori'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd wedi'i amgáu ac mewn papur gan Ddirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru, Dr Jane Wilkinson, sy'n cynnwys gwybodaeth ffeithiol ar y cyflwr, gan gynnwys effeithiau tymor hir, ac yn amlinellu unrhyw materion sy'n berthnasol i Gymru.

6. Yn ogystal, efallai yr hoffai'r pwyllgor nodi bod Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi ar 29 Tachwedd 2007 ei bod yn bwriadu deddfu i wrthdroi dyfarniad Tŷ'r Arglwyddi fel bod modd digolledu pobl â haint y nodau eisbilennol o dan gyfraith sifil yr Alban, ac ar 23 Mehefin 2008 cyflwynwyd y Mesur, Damages (Asbestos-Related Conditions) (Scotland) Bill.

#### Pam y mae'r Pwyllgor yn ystyried y mater hwn

6. Cysylltodd Val Lloyd AC â'r Cadeirydd yn ystod y toriad er mwyn dwyn y mater hwn i'w sylw a gofynnodd a allai'r pwyllgor drafod y mater gyda'r bwriad o ymateb i'r ymgynghoriad. Cytunodd y Cadeirydd ar y cais hwn.

7. Bydd y cyfnod ymgynghori'n dod i ben ar 1 Hydref ac felly y cyfarfod a gynhelir ar 24 Medi yw'r unig gyfle a gaiff y pwyllgor i drafod y mater hwn cyn diwedd yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, nid yw'n fater datganoledig ac nid oes rhaid i'r pwyllgor ymateb iddo.

#### Camau i'w cymryd gan y pwyllgor

8. Gwahoddir Aelodau'r pwyllgor i:

ystyried papur ymgynghori'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn enwedig y saith cwestiwn penodol y mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio arnynt;

cytuno a ddylai'r pwyllgor ymateb i'r ymgynghoriad ai peidio;

(petai'r pwyllgor yn penderfynu ymateb i'r ymgynghoriad) mynegi safbwynt y pwyllgor mewn perthynas ag unrhyw un o'r opsiynau a awgrymir yn y papur ymgynghori.

9. Gan nad oes llawer o amser i ystyried y mater hwn, efallai y bydd yn ddefnyddiol i Aelodau ganolbwyntio'n bennaf ar gwestiynau 2, 3 a 4 yn y ddogfen ymgynghori.

#### Steve George

**Clerc y Pwyllgor  
Medi 2008**

Dr Tony Jewell  
Chief Medical Officer Prif Swyddog Meddygol  
Director, Department of Public Health and Health Professions  
Cyfarwyddwr, Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd

Jonathan Morgan AM  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

Dear Mr Morgan

**Re: Ministry of Justice Consultation on Pleural Plaques**

Your letter of 22 August to Edwina Hart AM requested a paper on pleural plaques to inform the consideration of the Health, Wellbeing and Local Government Committee on the Ministry of Justice consultation on pleural plaques. The paper was to contain factual information on the condition including long term effects, and outline any specific issues relating to Wales.

On this basis, and after a brief literature review, a short, factual paper (attached in English and Welsh) covering these points has been produced by the deputy Chief Medical Officer. It does not include any commentary on the appropriateness of compensation for pleural plaques, and asbestos-related disorders, such as mesothelioma, that are the subject of the Ministry of Justice consultation, but covers the factual areas requested.

I hope that this assists your Committee in their considerations on the 24<sup>th</sup> September.

Yours sincerely

**Dr Tony Jewell**

## **Papur ar Placiau Plewrol gan y Dirprwy Prif Swyddog Meddygol**

Ardaloedd bychain penodol o ffeibrosis ym mhilenni'r ysgyfaint yw placiau plewrol, ac fe'i gallu hachosi pan fo unigolyn wedi bod mewn cysylltiad ag asbestos yn gynt. Nid ydynt fel arfer yn achosi symptomau arwyddocaol, nac yn effeithio'n andwyol ar y modd y mae'r ysgyfaint yn gweithio. Serch hynny, mewn achosion prin iawn gall y claf fod yn ymwybodol o deimlad anghyfforddus o grafu wrth anadlu.

Ceir dwy haen i bilenni'r ysgyfaint: y bilen barwydol sy'n leinio tu fewn i'r cawell yr ysgyfaint, a'r bilen ymysgarol sy'n gorchuddio'r ysgyfaint eu hunain. Gyda'i gilydd, mae'r pilenni llithrig hyn yn hwyluso symudiad yr ysgyfaint wrth anadlu.

Meinwe ffibraidd yw'r placiau plewrol. Maent fel arfer yn datblygu ar y bilen barwydol, ond weithiau gallant ddatblygu ar y bilen ymysgarol. Mae'r pathogenesis yn dal yn ansicr, ond credir bod presenoldeb ffeibrau asbestos yn arwain at ymateb llidiog gwan dros gyfnod hir, sy'n arwain at ryddhau cyfryngyddion cemegol, sydd yn eu tro yn arwain at ddatblygiad meinwe ffibraidd.

Oherwydd mai dim ond tu fewn y corff y mae placiau plewrol yn datblygu, maent yn anweladwy a dim ond drwy belydr-x, sgan CT neu archwiliad post mortem y gellir eu darganfod. Felly, nid oes gwybodaeth awdurdodol i'w chael ynghylch cyfanswm y rheini sydd â phlaciau plewrol na'r rheini a fydd yn eu datblygu maes o law. Yn bennaf, mae hyn oherwydd nad oes symptomau i blaciau plewrol, a'r ffaith bod amser hir rhwng bod yr unigolyn yn dod i gysylltiad ag asbestos a bod y deagnosis yn cael ei wneud.

### **Effeithiau hirdymor**

Anaml iawn y bydd placiau plewrol yn cael eu darganfod yn ystod yr 20 mlynedd cyntaf wedi i'r unigolyn ddod i gysylltiad ag asbestos, ac nid yw dod i gysylltiad ag asbestos yn arwain, o reidrwydd, at ddatblygu placiau. Nid ydynt o reidrwydd yn ymddangos cyn cyflyrau eraill sy'n gysylltiedig ag asbestos, nac yn arwain at gyflyrau o'r fath. Yn benodol, mae eu patholeg yn gwbl wahanol i batholeg mesothelioma.

Dyfynnwyd tystiolaeth gan Dr John Moore-Gillon a Dr Robin Rudd, ill dau yn feddygon ymgynghorol yn Ymddiriedolaeth GIG Bart a Llundain a yn arbenigwyr ar blaciau plewrol, yn y ddogfen ymgynghori: "Ni chredir bod placiau plewrol yn arwain yn uniongyrchol at unrhyw un o'r mathau anfaen eraill o glefydau plewrol sy'n gysylltiedig ag asbestos. Ychwaith, nid oes unrhyw risg y bydd newidiadau malaen yn arwain at mesothelioma. Serch hynny, gall eu presenoldeb ddangos lefel gronol o gysylltiad ag asbestos, lefel lle ceir risg uwch o fesothelioma neu anhwylderau eraill sy'n gysylltiedig ag asbestos. Ar gyfartaledd, yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth arall o gysylltiad ag asbestos, mae'n rhesymol tybio bod unigolion sydd â phlaciau wedi cael mwy o gysylltiad ag asbestos nag unigolion sydd heb blaciau. Nid yw amledd datblygiad cymhlethdodau eraill yn sgil cysylltiad ag asbestos yn ffactor y mae presenoldeb placiau yn dylanwadu arno. Yn hytrach, y cysylltiad ag asbestos a achosodd y placiau sy'n dylanwadu ar y ffactor hwnnw.

### **Materion penodol sy'n ymwneud â Chymru**

Mae mesothelioma yn fath prin o ganser sy'n gallu effeithio ar bilenni'r ysgyfaint, ac mae gweithio gydag asbestos yn ffactor risg mawr iddo. Dangoswyd bod risg uwch o fesothelioma ymysg nifer o grwpiau galwedigaethol, gan gynnwys gweithwyr platiau metel, adeiladwyr llongau, docwyr, gweithwyr dymchwel, lagwyr, plymeriaid, seiri coed a thrydanwyr. Serch hynny, mae'r defnydd helaeth a wnaed o asbestos yn y gorffennol yn golygu bod gweithwyr mewn llawer o ddiwydiannau wedi dod i gysylltiad ag ef. Oherwydd y cysylltiadau â diwydiannau trwm, gwelir yr effaith ymysg gwrywod gan fwyaf.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cyhoeddi taflenni sy'n nodi nad oes unrhyw un o awdurdodau unedol Cymru ymysg yr 20 o ardaloedd yr effeithir fwyaf arnynt ym Mhrydain Fawr. Yr ardal o amgylch dociau'r Barri ym Mro Morgannwg yw'r ardal sydd â'r gyfradd uchaf ymysg gwrywod yng Nghymru (ar gyfer 1981-2005), â Chyfradd Marwolaethau Safonedig o 122 (cyfwng hyder 95% = 95-155; nid yw hyn yn arwyddocaol yn ystadegol). Mae nifer blynyddol y rheini sy'n marw o mesothelioma ym Mhrydain Fawr wedi cynyddu o 153 yn 1968 i 2037 yn 2005. O 1981-2005 cafwyd 1055 o farwolaethau yn sgil mesothelioma yng Nghymru.

Mae'r amcanestyniadau diweddaraf yn awgrymu y bydd cyfanswm nifer o marwolaethau yn sgil mesothelioma ym Mhrydain Fawr yn cyrraedd ei uchafbwynt rhywle rhwng y lefelau presennol a 2450 rhywbryd rhwng 2011 a 2015.

## **Casgliadau**

Ohonynt eu hunain, mae placiau plewrol yn anfalaen, ond maent yn arwydd y bu'n unigolyn mewn cysylltiad ag asbestos, sy'n gallu achosi clefydau eraill.

Dr Jane Wilkinson  
Dirprwy Prif Swyddog Meddygol  
17 Medi 2008